

# **Cyngor Cymuned Llanystumdwy**

**Cofnodion rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 18fed o Fehefin, 2020 drwy 'Zoom', yn dilyn yn cyfarfod blynyddol.**

**Nid oedd yn bosib cynnal cyfarfod cyffredin yn y man arferfol, oherwydd y 'COVID 19'.**

**Yn bresennol** drwy 'Zoom': Y Cyngorwyr Aled Davies (Cadeirydd), Anwen Jones, Aled Evans, Trefor Wyn Jones, Margaret Griffith, William Ifor Hughes, Naomi Jones, Thomas Prys Jones, Ceri Jones, Darren Morley, Sian Angharad Parry, Tegid Jones, Angela Williams, a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cyngorwyr, Sion Aled Jones a Gareth O.Davies.

Diolchodd y Cadeirydd newydd, sef y Cyngorydd Aled Davies i'r cyn Gadeirydd sef Cyngorydd Anwen Jones am ei gwaith am y flwyddyn 2019 - 2020, a diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith.

- Dewis cynrychiolydd i Bwyllgor Rhanbarth Un Llais Cymru. Dywedodd y Cyngorydd Trefor Jones ei fod yn dymuno rhoi'r gorau i fod yn cynhyrchioli'r Pwyllgor o rwan ymlaen. Fe ddiolchwyd iddo am ei waith ar hyd y blynyddoedd, ac oherwydd nad oedd neb yn fodlon ymgymryd â bod yn gynrychiolydd ar y noson, penderfynwyd trafod y mater yn ein cyfarfod nesaf.
- Dewis cynrychiolydd y Cyngor ar Grŵp Mynediad Dwyfor. Penderfynwyd gofyn i Mr Dylan Thomas, Trewerin, Chwilog i gario mlaen.
- Nid oedd yn bosibl llofnodi'r Datganiad Derbyn Swydd Cadeirydd newydd gan y Cyngorydd Aled Davies ar y noson, oherwydd natur y cyfarfod drwy 'Zoom', ond bydd hyn yn cael ei wneud o fewn yr wythnosau nesaf.
- Cynigiwyd enw y Cyngorydd Tegid Jones i fod yn Is-gadeirydd newydd am y flwyddyn 2020-2021, a derbyniodd y swydd.

1. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 21ain o Fai 2020. Bydd angen i'r Clerc wneud trefniadau i'r Cadeirydd ei llofnodi. Cadarnhawyd fod cofnodion 5ed o Fawrth 2020, a'r 7fed o Ebrill 2020 wedi cael ei llofnodi gan y cyn Gadeirydd yn dilyn y cyfarfod, (sef y tu allan i dŷ y Clerc ar 31ain o Fai 2020).

2. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Mawrth, Ebrill a Mai 2020 - mae hyn wedi cael ei wneud yn yr un modd gan y cyn-Gadeirydd ar 31ain o Fai 2020.

3. Datgan buddiant personol - neb.

#### **4. Cyngor Gwynedd**

**a) Cau Ffordd Dosbarth III gyferbyn a Rhedynog Bellaf, Chwilog ar yr 22ain o Fehefin, 2020,** am ddim mwy na 3 diwrnod er mwyn gwneud gwaith cloddio i alluogi gosod 37 metr o ddwythellau 'ducting' o dan y ffordd. **Derbyn er gwybodaeth.**

**b) Cau Lon Bryn Gwynt, Chwilog, a Chau Ffordd Ddosbarth III sef Lon Rhedynog, Chwilog** – ail wynebu'r lon -y gwaith i'w wneud rhywdro ar ol 01.07.2020, disgwylir gorffen y gwaith o fewn tua 9 mis-dim dyddiad pendant hyd yn hyn. **Derbyn er gwybodaeth.**

**c) Enwi ystâd newydd yn Chwilog -tir ger Madryn** – 15 o dai. Wedi derbyn ebost gan yr Adran Rheolaeth Adeiladu, yn gofyn i'r Cyngor ystyried enw newydd i'r stâd, sef Gerddi Madryn. – fe drafodwyd y mater, a **gofynwyd i'r Clerc awgrymu un o'r ddau enw canlynol, sef Cefn Madryn, neu Maes Marchnad.**

#### **5. Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned:-**

a) Cais Rhif:C20/0407/41/LL - Glan Aber, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6SL - bwriad i ddymchwel modurdy dwbl presennol a chodi tŷ deulawr newydd. **Penderfynu gwrthod**, gan nodi'r canlynol:-

*“Nad oes prinder tai yn Chwilog ar hyn o bryd.*

*Poeni am brysurdeb traffig ger y safle, siop cigydd ar draws y lon, a'r lon yn gulhau gerllaw a nifer o blant yn cerdded i'r ysgol.*

*Mae bwriad i barcio dau gar o flaen ei gilydd yno, ond oherwydd ei bod yn gyfyng yno, bydd perygl y bydd car neu ddau yn parcio ar y lon.*

*Bod y lleoliad yn brysur oherwydd fod y ffordd yn fforchio yn ymyl y safle, a bod nifer o fysiau a lorïau yn mynd drwy'r pentref yn gyson.*

*Fod datblygiad adeiladu stâd o dai newydd wedi cychwyn y tu nol i'r Madryn yn ddiweddar, a dwy stâd arall ar y gweill yn y pentref.*

*Pryder fod y tŷ yn mynd i fod yn rhy fawr i'r lleoliad, a phryder am yr effaith ar y tai gyferbyn”.*

#### **6. Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2020 ymlaen.**

**Pont Llanystumdwy – clirio tir y Cyngor yn Maenywern** - y Clerc wedi cael cadarnhâd gan Mr Gareth Jones y bydd yn gwneud y gwaith. **Derbyn.**

#### **Materion yn y gymuned.**

#### **7. Chwilog**

**Hidiart Lydan (Lon Daniel)** - twll mawr ac angen sylw, yn y ffordd ger y fynedfa. Clerc am dynnu ei lun, ac anfon y manylion i'r Adran berthnasol. **Derbyn.**

**8. Enwau lleol** - Cais gan Mrs Marian Evans, i ystyried gosod arwyddion o enwau lleol yn y gymuned, sef enwau pontydd, afonydd, enw cynhenid ambell groesffordd, a'i gwneud yn weledol i bawb ei gwybod a'i defnyddio i'r dyfodol. **Trafodwyd y mater, ac roedd pawb yn gytún ei fod yn syniad da. Gofynwyd i'r Cadeirydd son am y mater yn rhifyn nesaf o'r Ffynnon, a bydd yn cael ei drafod yn ein cyfarfod fis nesaf.**

**9. Archwilio mewnol Cyfrifon 2019 - 2020** – y Clerc wedi derbyn cadarnhâd gan Ms Luned Fón Jones, Rheolwr Archwilio, Cyngor Gwynedd fod yr archwiliad wedi ei gwblhau a fod popeth yn iawn.

Y Clerc wedi anfon copi drwy ebost at y Cynghorwyr, a bydd angen trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi yn dilyn y cyfarfod.

Bydd y Clerc wedyn yn trefnu i anfon y cyfrifon archwiliedig i Delwedd, er mwyn iddynt fod ar gael ar wefan y Cyngor.

Bydd y Clerc wedyn yn trefnu i anfon dogfennau at yr Archwilwyr allanol erbyn 01.07.2020.

Bydd hysbysiad yn cael ei roi ar ein gwefan, ac ar yr hysbysfyrdau yn y pentrefi i wahodd unrhyw etholwyr i archwilio'r wybodaeth, am gyfnod o 20 diwrnod, sef rhwng 01.07.2020 - 26.07.2020. **Derbyn.**

### **Materion Ariannol**

10. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Roedd y Clerc wedi anfon epost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, yn cynnwys dogfen 'excel' o'r sefyllfa ariannol hyd at 17.06.2020, a rhagolwg o beth fydd y gwariant hyd at ddiwedd Mawrth 2021. **Derbyn.**

11. **Cyflog/Costau a Threth incwm ar gyflog y Clerc:-** cytunwyd y byddai'n iawn i'r Clerc wneud y taliadau misol drwy ffurf BACS yn hytrach na siec, o hyn ymlaen oherwydd hwylustod ac i arbed mynd i'r banc.

12. Anfonebau angen eu talu:

<b>Enw/Rheswm</b>	<b>Rheswm</b>	<b>Pris</b> £	<b>TAW</b>	<b>Cyfanswm Taliad</b> £	<b>Taliad BACS</b>
ICO 'Information Commissioner's Office' 22.05.2020	Cofrestru hefo'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth Diogelu Data - mae hwn wedi cael ei dalu drwy ddebyd uniongyrchol	<b><u>35.00</u></b>	<b><u>0.00</u></b>	<b><u>35.00</u></b>	<b><u>35.00</u></b>

Cyflog mis Mai 2020 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM

<b>Enw/Rheswm</b>	<b>Swm</b> £	<b>Cyfanswm Taliad net</b> £	<b>Taliad BACS yn lle siec oherwydd sefyllfa y COVID19:-</b>
Cyflog sylfaenol y Clerc, Mai 2020 35 awr x £10.57 =	369.95 - llai treth £74.00	<b><u>295.95</u></b>	<b><u>295.95</u></b>
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Mai 2020	370.00 x 20% = £74.00	<b><u>74.00</u></b>	<b><u>74.00</u></b>
Costau'r Clerc Mai 2020	£16.65	<b><u>16.65</u></b>	<b><u>16.65</u></b>

Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar 9fed o Orffennaf 2020, am 8:05 y.h. drwy 'Zoom'.